# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_24_04_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones**<br>**Vaughan Gething** |
| Tystion: | **David Bentley, Head of Asset Management, CIPFA** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Kerry Dearden (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones, ac roedd Vaughan Gething yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Rheoli Asedau – Tystiolaeth gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd David Bentley, Pennaeth Rheoli Asedau, y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) – Eiddo.

2.2 Holodd yr Aelodau y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at David Bentley gyda'r cwestiynau canlynol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar Reoli Asedau yng Nghymru:

- Mae strategaeth gyfalaf Llywodraeth Cymru, y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP), yn cyfeirio at reoli asedau ond dim ond o ran nodi'r angen i ddefnyddio'r sylfaen asedau yn well. Yn eich barn chi sut y dylai rheoli asedau yn y llywodraeth ganolog, ac yn y sector cyhoeddus ehangach, gael ei gysylltu â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn ymarferol?
- Yn eich papur, gan gyfeirio at gynlluniau rheoli asedau llywodraeth leol Cymru, yr ydych yn nodi bod y rhan fwyaf o'r rhain yn cyfeirio i ryw raddau at amcanion strategol neu bolisi, ond rhaid bod y cyfeiriadau hyn yn rhai gwirioneddol yn ymarferol. Yn eich profiad chi, a yw'n wir nad yw cysylltiadau o'r fath yn rhai gwirioneddol yn ymarferol, ac os yw rheoli asedau'n cael ei weld fel gwasanaeth cefnogi mewn rhai meysydd, fel y mae peth o'n tystiolaeth yn ei awgrymu, sut y gellir sicrhau bod cysylltiadau strategol o'r fath yn fwy diriaethol?
- Yn eich papur mewn perthynas â gwersi a ddysgwyd o Gymru [*tudalennau 13-14*] yr ydych yn rhoi deg enghraifft o lle yr ydych wedi rhoi cymorth i awdurdodau lleol mewn perthynas â rheoli eiddo. A oedd y cyfan o'r rhain yn awdurdodau lleol o Gymru a sut y mae'r trefniadau hyn yn codi, er enghraifft a yw'r awdurdod yn cysylltu â chi am gymorth gyda phrosiect?

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar oblygiadau ariannol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ymateb i'r Dirprwy Weinidog yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol

## 5. Rheoli Asedau – Ystyried y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar ei ymchwiliad i Reoli Asedau.

## 6. Canllawiau i bwyllgorau eraill ar graffu ariannol

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ganllawiau drafft i bwyllgorau eraill ar graffu ariannol.

## 7. Cyllido Addysg Uwch – Ystyried cylch gorchwyl drafft

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl drafft ei ymchwiliad sydd ar ddod ynghylch Cyllido Addysg Uwch a thrafododd ddulliau o ymdrin â'r ymchwiliad.

## 8. Trafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2015

8.1 Trafododd y Pwyllgor gynigion ar gyfer ymdrin â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015.